22110340

International Baccalaureate
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Monday 16 May 2011 (morning)
Lundi 16 mai 2011 (matin)
Lunes 16 de mayo de 2011 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.
- You are not permitted to bring copies of the works you have studied into the examination room.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.
- Vous n'êtes pas autorisé(e) à amener des exemplaires des œuvres que vous avez étudiées dans la salle d'examen.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.
- No se permite traer a la sala de examen copias de las obras estudiadas.


© International Baccalaureate Organization 2011

https://xtremepape.rs/

*Ysgrifennwch draethawd ar* ***un*** *o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol.* ***Ni*** *roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** "Gofyn cwestiynau nid cynnig atebion terfynol yw swyddogaeth bardd." I ba raddau yr adlewyrchir y farn hon yng ngweithiau'r beirdd a astudiwyd gennych? Dylid cyfeirio at o leiaf waith dau awdur.

**2.** "Yn rhagoriaeth ei ddyfeisiadau llenyddol y mae adnabod bardd llwyddiannus nid yng nghamp ei syniadau." A oes modd cytuno â'r farn hon? Dylid rhoddi sylw i ddyfeisiadau fel cyferbyniadau, cyseinedd, ansoddeiriau ac yn y blaen. Cyfeiriwch at o leiaf ddau waith a astudiwyd gennych.

**Drama**

**3.** "Mae drama'n gwrthwynebu rhwystrau a dyheadau a thrwy hynny'n creu tensiynau." I ba raddau y gellir cyfiawnhau'r gosodiad hwn? Cyfeiriwch at o leiaf ddwy ddrama yn eich ateb.

**4.** "Cyfres o ddelweddau a grëir gan gyfuniad o symudiadau a geiriau yw drama." Trafodwch arwyddocâd y ddamcaniaeth hon. Dylid cyfeirio at ddwy neu dair drama a astudiwyd gennych.

**Nofel**

**5.** "Dylai nofel dda brocio'r meddwl a bywiogi'r dychymyg." I ba raddau a sut y gwnaeth y nofelau a ddarllenwyd gennych gael yr effaith hyn arnoch? Cyfeiriwch at ddwy neu dair nofel a ddarllenwyd gennych.

**6.** Trafodwch ddiweddglo o leiaf ddwy neu dair nofel a astudioch gan sôn pa mor dderbyniol a chredadwy oeddynt. Dylid sôn am bethau a gawsoch yn gredadwy ac am yr hyn na chawsoch mohonynt mor gredadwy a boddhaol.



https://xtremepape.rs/

**Storïau Byrion**

**7.** “Mae angen i stori fer, er mor fyr ydyw, herio’r darllenydd.” I ba raddau y gwnaeth y storïau byrion a ddarllenwyd gennych eich herio a sut y llwyddodd yr awduron i wneud hynny? Dylid cyfeirio at ddwy neu dair stori o waith awduron gwahanol a astudiwyd gennych.

**8.** “Hanfod stori fer dda yw defnydd yr awdur o adeiladwaith pendant sydd yn rhoi trefn a datblygiad i’r stori.” Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf ddwy stori a astudioch chi gan wahanol awduron.

**Hunangofiant a Chofiant**

**9.** “Mae disgwyl i’r cofiannydd a’r hunangofiannydd geisio darlunio’r byd yn realistig a chredadwy a mynd o dan wyneb cymdeithas.” Trafodwch y gosodiad uchod gan gyfeirio at o leiaf ddau waith a astudioch.

**10.** “Mae sgrifennu cofiant neu hunangofiant yn broses greadigol yn ogystal â chofnodi a dadansoddi ffeithiau moel.” Pa mor amlwg ac effeithiol oedd yr elfen greadigol a llenyddol yn y gweithiau a ddarllenwyd gennych? Cyfeiriwch at o leiaf ddau waith a astudiwyd gennych.

**Cwestiynau Cyffredinol**

**11.** “Dylai pob gwaith llenyddol fod yn gymhleth os yw am adlewyrchu bywyd yn ei holl amrywiaeth.” I ba raddau yr adlewyrchir y farn hon yn o leiaf ddau waith y gwnaethoch eu hastudio?

**12.** “Rhaid i lenor wrth ddawn ddisgrifio, i greu awyrgylch a naws berthnasol.” Sut y llwyddodd yr awduron y gwnaethoch ddarllen eu gwaith greu awyrgylch? Dylid cyfeirio at o leiaf ddau waith a astudioch chi.

**13.** Cymharwch sut mae’r gwahanol awduron y darllenoch eu gwaith yn ymdrin ag argyfwng mewnol neu allanol. Dylid cyfeirio at o leiaf ddau waith a ddarllenoch.

**14.** Manylwch sut y defnyddir technegau arbennig a chywair iaith i gyfleu agwedd neu deimladau yn o leiaf ddau o’r gweithiau a astudiwyd gennych.



https://xtremepape.rs/